Minutes of the **Finance and General Purposes Committee Meeting** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, Bangor on **Monday 1st February 2016 at 7.10 pm**

**PRESENT :-** The Deputy Mayor, Councillor Dewi Williams

| | | | |
|---|---|---|---|
| Councillors :- | Mrs L Day (Chairman) | Colin King | Mrs J Marshall |
| | Mrs S Ashworth | D Llewelyn | R K Marshall |
| | Mrs J Forsyth | D Madge | J M Martin |
| | | M Shultan | G O Roberts |

Officer : Mr Ian Jones, Town Clerk/Finance Officer

**174/15 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from Her Worship The Mayor, Councillor Mrs E Butler (illness) and Councillors D Hainge (emergency, dangerous tree) John Wynn Jones (meeting), C O'Neal (work), N Pickavance (family illness) and E H Williams (illness).

**175/15 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**

None**.**

**176/15 URGENT BUSINESS**

The Town Clerk reminded Members that a Special Meeting of the Committee would be held on February 8th to discuss the Budget for 2016/2017 and the setting of the annual Precept. Budget books were being circulated and he asked that if there were any detailed questions these could be forwarded as soon as possible in order that a full and informative answer could be researched.

The Committee re-iterated the tribute paid earlier in the evening at the Planning and Amenities Committee in respect of the sad death of Former Councillor Eddie Dogan. The Town Clerk was asked to contact the family with regard to Members' attendance at the forthcoming funeral.

**177/15 NORTH WALES POLICE**

The Chairman welcomed Temporary Acting Chief Inspector Brian Kearney and Temporary Inspector Andy Mcgregor. Mr Kearney gave an update on operations in and around Bangor and the wider arena of Gwynedd. He highlighted the successful Pubwatch Scheme and Shopwatch Scheme which had operated locally and had resulted in a decrease in the crime numbers. He also highlighted the use of CCTV which had been effective in deterring crime and an increased rate of convictions. Other initiatives were noted including those over the Christmas period, advice to the public on burglaries, anti-social behaviour, and the changes in the criteria for capturing crime figures.

Members asked questions in respect of

- begging problems
- late night licensing
- highways safety
- drugs use
- speeding and noisy vehicles
- pedestrianisation
- town centre nightlife at the weekend

Mr Kearney and Mr McGregor responded to individual questions as appropriate.

The Chairman thanked representatives of North Wales Police for their attendance and members generally showed their appreciation.

**178/15 SECTION 157 APPLICATIONS FOR FINANCIAL ASSISTANCE**

The Town Clerk reported details of the requests for financial assistance that had been received:
**RESOLVED** that the following organisation be granted the sum of £125.00 each:-

a) Y Goriad
b) Gwynjim Gymnastics
c) Bangor Music Festival 2016
d) Bangor Civic Society

Declaration of interest by Councillor L Day, J Marshall and K Marshall on d) Bangor Civic Society and they took no part in the debate or voting thereon.

**179/15 REPORTS/DOCUMENTS RECEIVED**

a) Bangor University – Annual Accounts 2014-2015
b) Bangor University – Annual Review 2014 - 2015

Members noted that the above documents were available for inspection at the Council Offices on request and on the relevant website.

**180/15 CONSULTATION ON THE DRAFT LOCAL GOVERNMENT (WALES) BILL**

Members noted that the Town Clerk had drafted an initial response on behalf of the City Council which had previously been circulated by e-mail. It was further noted that a workshop would be held on this subject matter at Venue Cymru, Llandudno on Thursday 4th February.

Members noted the initial response as drafted by the Clerk and these were generally accepted with the addition that the City Council supported three Counties in North Wales as described in the proposals.

**RESOLVED** that with the above amendment the response as drafted, be adopted as the City Council's official response to the consultation, and that the Town Clerk submit this to Welsh Government prior to the deadline date.

**181/15 TCP UPDATE**

The Town Clerk reported the latest position with regards to the Town Centre Partnership and the work that had been undertaken since the last meeting of the committee. Members noted that a Consultant had been engaged to help commission the aims and objectives of the TCP which included the setting up of an over-arching Board to be known as the City Centre Partnership which would meet three times a year and consisted of the strategic stakeholders. This would be supported by a Management Group which met approximately 6 times a year and consisted of the influencing and impacted stakeholders and beneath this level there would be three Thematic Sub Groups consisting of Business Economy Marketing and Promotion, Housing Health and Wellbeing, and Development and Environment sub group.

The Clerk explained that there were several schemes ongoing at the same time and a consultation process would shortly be underway engaging a large group of people and organisations, workshops together with an electronic survey which would be widely circulated.

The Clerk reminded Members that the Council at its meeting held on 11th January had suggested that the Office of Mayor, together with Councillor Susan Ashworth be appointed as additional representatives on the Partnership, it was now suggested this should be extended to the Deputy Mayor.

**RESOLVED** that the Mayor, Deputy Mayor and Councillor Ashworth be appointed to serve as the City Council's representatives on the TCP.

**182/15 INVOICES FOR PAYMENT**

It was **RESOLVED** that the invoices as detailed on the schedule totalling £14,225.63 be approved and passed for payments.

**183/15 FINANCE - Third Quarter Accounts**

The Town Clerk presented the third quarter accounts for information and comment, it was noted that this would be the last report of the current financial year prior to the final accounts which would be detailed from 1st April.

It was **RESOLVED** to receive and approve the Accounts as set out in the report that was distributed at the Meeting.

**184/15 EXCLUSION OF THE PRESS AND PUBLIC**

It was resolved that In accordance with Section 1 of the Public Bodies Act (Admission to Meetings) 1960 the Press and Public excluded from the Meeting when the following items would be discussed as the information contained therein was of a confidential nature.

**Letter from Nantporth CIC – Lease and Rent** - The Town Clerk reported that he had received a letter regarding the Lease and Rent arrangements and that he had carried some initial enquiries and investigations, however this matter would need some detailed investigations and legal advice should the matter require further attention by the Committee the Town Clerk would report back.

**RESOLVED** that the position be noted and that the Town Clerk be authorised to make the necessary enquiries and take action as appropriate.

---

The Meeting finished at 8.45pm

Cofnodion **Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, **Dydd Llun 1af o Chwefror 2016** am 7.10 y.h.

**PRESENNOL :-** Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Dewi Williams

Cynghorwyr :- Mrs L Day (Cadeirydd), Mrs S Ashworth, Mrs J Forsyth, Colin King, D Llewelyn, D Madge, M Shultan, Mrs J Marshall, R K Marshall, J M Martin, G O Roberts

Swyddog : Mr Gwyn Hughes, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

**174/15 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Ei Theilyngdod y Maer, y Cynghorydd Mrs E Butler (salwch) a'r Cynghorwyr D Hainge (argyfwng, coeden beryglus) John Wynn Jones (cyfarfod), C O'Neal (gwaith), N Pickavance (salwch teuluol) ac E H Williams (salwch).

**175/15 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Dim.

**176/15 MATERION BRYS**

Atgoffodd Clerc y Dref yr Aelodau y byddai Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 8 Chwefror i drafod y Gyllideb ar gyfer 2016/2017 a gosod y Praesept blynyddol. Roedd llyfrau Cyllideb yn cael ei dosbarthu a gofynnodd, os oedd unrhyw gwestiynau manwl, i'r Aelodau anfon y rhain ymlaen cyn gynted ag y bo modd er mwyn gallu cynnig ateb manwl a chynhwysfawr.

Ategodd y Pwyllgor y Deyrnged a dalwyd ynghynt yn y noson yn y Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau yn dilyn marwolaeth drist y cyn Gynghorydd Eddie Dogan. Gofynnwyd i Glerc y Dref gysylltu â'r teulu ynglŷn ag Aelodau'n mynychu'r angladd.

**177/15 HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Croesawodd y Cadeirydd y Prif Arolygydd Dros Dro, Brian Kearney a'r Arolygydd Dros Dro, Andy Mcgregor. Rhoddodd Mr Kearney ddiweddariad ar eu gwaith ym Mangor a'r cyffiniau ac yng Ngwynedd drwyddi draw. Tynnodd sylw at y ddau gynllun llwyddiannus, *Pubwatch* a *Shopwatch*, a fu'n weithredol yn lleol, ac a oedd wedi arwain at ostyngiad yn y ffigyrau troseddu. Tynnodd sylw hefyd at y defnydd o gamerâu cylch cyfyng a fu'n effeithiol yn atal pobl rhag troseddu ac yn arwain at gyfradd uchel o gollfarnau. Crybwyllwyd cynlluniau eraill yn cynnwys y rheiny fu'n weithredol dros y Nadolig, cyngor i'r cyhoedd ar ladradau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, a'r newidiadau yn y meini prawf ar gyfer cipio ffigyrau tor-cyfraith.

Cafwyd cwestiynau gan yr Aelodau am

- broblemau cardota
- trwyddedu hwyr y nos
- diogelwch y ffordd
- defnyddio cyffuriau
- goryrru a cherbydau swnllyd
- pendestrianeiddio
- bywyd nos canol trefi ar y penwythnosau

Atebodd Mr Kearney a Mr McGregor gwestiynau unigol fel oedd yn briodol.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr Heddlu Gogledd Cymru am eu presenoldeb a dangosodd yr Aelodau eu gwerthfawrogiad.

**178/15 ADRAN 157 CEISIADAU AM RODDION ARIANNOL**

Adroddodd Clerc y Dref fanylion y ceisiadau am roddion ariannol a oedd wedi eu derbyn:
**PENDERFYNWYD** rhoi swm o £125.00 i'r mudiadau canlynol:-

a) Y Goriad
b) Gwynjim Gymnastics
c) Gŵyl Gerdd Bangor 2016
d) Cymdeithas Ddinesig Bangor

Datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorwyr L Day, J Marshll a K Marshall ar d) Cymdeithas Ddinesig Bangor, ni chymerwyd rhan ganddynt yn y drafodaeth na phleidleisio.

**179/15 ADRODDIADAU/DOGFENNAU A DDERBYNIWYD**

a) Prifysgol Bangor – Cyfrifon Blynyddol 2014-2015
b) Prifysgol Bangor – Arolwg Blynyddol 2014-2015

Nododd yr Aelodau fod y dogfennau uchod ar gael i'w harchwilio yn Swyddfeydd y Cyngor drwy wneud cais ac ar y wefan berthnasol.

**180/15 YMGYNGHORIAD AR FIL DRAFFT LLYWODRAETH LEOL (CYMRU)**

Nododd yr Aelodau fod Clerc y Dref wedi drafftio ymateb cychwynnol ar ran Cyngor y Ddinas, a anfonwyd allan yn flaenorol drwy e-bost. Nodwyd ymhellach y byddai gweithdy'n cael ei gynnal ar y pwnc hwn yn Venue Cymru, Llandudno, ddydd Iau 4 Chwefror.

Nododd yr Aelodau'r ymateb cychwynnol fel ag y'i drafftiwyd gan y Clerc, ac fe'i derbyniwyd yn gyffredinol ond gan ychwanegu fod Cyngor y Ddinas yn cefnogi tair Sir yng Ngogledd Cymru fel y disgrifir yn y cynnig.

**PENDERFYNWYD**, yn amodol ar y newid uchod, fod yr ymateb fel y'i drafftiwyd, yn cael ei fabwysiadu fel ymateb swyddogol Cyngor y Ddinas i'r ymgynghoriad, a bod Clerc y Dref yn anfon hwn i Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad cau.

**181/15 DIWEDDARIAD PCT**

Adroddodd Clerc y Dref am y sefyllfa ddiweddaraf o ran Partneriaeth Canol y Dref a'r gwaith a wnaed ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor. Nododd yr Aelodau fod Ymgynghorydd wedi'i gyflogi i helpu i gomisiynu nodau ac amcanion y Bartneriaeth. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu Bwrdd trosfwaol fyddai'n cael ei alw'n Bartneriaeth Canol y Ddinas. Byddai'n cyfarfod dair gwaith y flwyddyn ac yn cynnwys y rhanddeiliaid strategol. Byddai'r Bwrdd yn cael ei gefnogi gan Grŵp Rheoli a fyddai'n cwrdd tua 6 gwaith y flwyddyn ac a fyddai'n cynnwys rhanddeiliaid fyddai'n dylanwadu, a rhai fyddai'n cael eu heffeithio, ac y dan y lefel hon byddai tri Is Grŵp Thematig yn cynnwys Busnes, Economi, Marchnata a Hyrwyddo; Tai, Iechyd a Lles; a Datblygu a'r Amgylchedd.

Eglurodd y Clerc fod sawl cynllun ar y gweill ar yr un pryd ac y byddai proses ymgynghori'n digwydd yn fuan a fyddai'n ymgysylltu â grŵp mawr o bobl a mudiadau, gyda gweithdai ynghyd ag arolwg electronig a fyddai'n cael ei ddosbarthu'n eang.

Atgoffodd y Clerc yr Aelodau fod y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 11 Ionawr, wedi awgrymu y dylai'r Maer, ynghyd â'r Cynghorydd Susan Ashworth gael eu penodi fel cynrychiolwyr ychwanegol ar y Bartneriaeth, ac awgrymwyd y tro hwn y dylid cynnwys y Dirprwy Faer hefyd.

**PENDERFYNWYD** fod y Maer, y Dirprwy Faer a'r Cynghorydd Ashworth yn cael eu penodi i wasanaethu fel cynrychiolwyr Cyngor y Ddinas ar y Bartneriaeth.

**182/15 ANFONEBAU I'W TALU**

**PENDERFYNWYD** derbyn a chaniatáu talu'r anfonebau fel eu ceir yn y Rhestr, yn rhoi cyfanswm o £14,225.63.

**183/15 CYLLID - Cyfrifon Trydydd Chwarter**

Cyflwynodd Clerc y Dref y cyfrifon trydydd chwarter er gwybodaeth a sylwadau, nodwyd mai hwn fyddai adroddiad olaf y flwyddyn ariannol bresennol cyn y cyfrifon terfynol a fyddai'n cael eu rhestru'n fanwl o 1 Ebrill ymlaen.

**PENDERFYNWYD** derbyn a chaniatáu'r Cyfrifon fel eu gosodwyd allan yn yr adroddiad a rannwyd allan yn y Cyfarfod.

**184/15 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** yn unol ag Adran 1 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960 y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd yn ystod trafodaeth ar yr eitemau canlynol sydd yn cynnwys gwybodaeth o natur gyfrinachol:

**Llythyr oddi wrth Nantporth C.I.C. - Prydles a Rhent** - Adroddodd Clerc y Dref ei fod wedi derbyn llythyr ynglŷn â'r trefniadau Prydles a Rhent a'i fod wedi gwneud rhywfaint o ymholiadau cychwynnol, ond, byddai'r mater hwn angen ymchwiliadau manwl a chyngor cyfreithiol. Os bydd angen sylw pellach iddo gan y Pwyllgor, bydd Clerc y Dref yn adrodd yn ôl.

**PENDERFYNWYD** nodi'r sefyllfa ac awdurdodi Clerc y Dref i wneud yr ymholiadau angenrheidiol a chymryd camau fel y bo'n briodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45 pm